



Safonau ar gyfer Busnesau Optegol

Yn weithredol o 1 Ionawr 2025

Cynnwys

Safonau ar gyfer Busnesau Optegol	3
Y safonau	9
1. Eich cleifion:	10
1.1. Gall cleifion ddisgwyl bod yn ddiogel yn eich gofal.	10
1.2. Mae gofal cleifion yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd addas.	12
1.3. Mae'r cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol; a	14
1.4. Gall cleifion roi caniatâd dilys i gael triniaeth.	16
2. Eich diwylliant a'ch trefn lywodraethu:	18
2.1. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gennych yn agored ac yn dryloyw.	18
2.2. Rydych yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol.	21
2.3. Mae gennych system llywodraethu clinigol ar waith; ac	23
2.4. Mae cyfrinachedd yn cael ei barchu.	24
3. Eich staff:	25
3.1. Mae staff yn gallu arfer eu barn broffesiynol.	25
3.2. Mae staff wedi'u hyfforddi, eu cymhwyso a'u cofrestru'n briodol.	27
3.3. Mae staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n ddigonol; ac	29
3.4. Mae staff yn cydweithio ag eraill, lle bo hynny'n briodol.	31

Safonau ar gyfer Busnesau Optegol

Safonau ar gyfer Busnesau Optegol

Mae ein Safonau ar gyfer Busnesau Optegol yn diffinio'r safonau y disgwyliwn i fusnesau optegol eu cyrraedd er mwyn diogelu'r cyhoedd a hyrwyddo safonau gofal uchel.

Y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC)

Mae rôl y Cyngor Optegol Cyffredinol fel rheoleiddiwr y DU ar gyfer y proffesiynau optegol yn rhoi cyfrifoldeb statudol arnom i osod safonau. Ein hamcan statudol cyffredinol yw diogelu'r cyhoedd ac wrth gyflawni'r amcan hwn, mae'n rhaid i ni hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad priodol ar gyfer cofrestreion busnes.

Sut ydw i'n defnyddio ac yn cymhwyso'r safonau?

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r 12 safon y mae'n rhaid i chi eu bodloni fel busnes optegol cofrestredig. Nid yw'r safonau hyn wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth ac maent yn cynnwys safonau sy'n ymwneud ag ymddygiad a gofal clinigol.

Mae'r safonau wedi'u cynllunio i:

- Nodi ein disgwyliadau'n glir.
- Ystyried cyflymder y newid yn y sector optegol.
- Adlewyrchu disgwyliadau newidiol y cyhoedd, gan gynnwys pwysigrwydd gonestrwydd a chaniatâd.
- Sicrhau cysondeb â'r safonau a osodwn ar ymarferwyr unigol; a
- Myfyrio'n bennaf ar yr hyn sy'n arfer da yn barod.

Safonau ar gyfer Busnesau Optegol

Mae'r safonau hyn yn darparu fframwaith sy'n eich galluogi i gymhwyso eich barn broffesiynol ac ystyried sut i'w cymhwyso yng nghyd-destun eich busnes. Er mwyn eich helpu i wneud hynny, rydym wedi darparu gwybodaeth ychwanegol am ein disgwyliadau o dan bob safon. Wrth feddwl am sut i gymhwyso safon i'ch busnes, efallai y byddwch am ystyried a fyddai eich cymheiriaid yn defnyddio'r un dull, a sut byddech chi'n cyfiawnhau eich dull gweithredu pe bai'n cael ei herio..

I bwy mae'r safonau hyn yn berthnasol?

Mae'r safonau hyn yn berthnasol i bob busnes optegol sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

Bydd cydymffurfio â'r safonau yn galluogi busnesau i gynorthwyo, annog a chefnogi optometryddion unigol, optegwyr cyflenwi, a myfyrwyr i gydymffurfio â'u safonau proffesiynol unigol, ac wrth wneud hynny, sicrhau eu bod yn darparu gofal o ansawdd da i gleifion a hyrwyddo proffesiynoldeb.

Rydym yn ceisio ymestyn ein pwerau fel y gallwn fynnu bod pob busnes optegol sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig yn cofrestru gyda ni. Bydd cofrestru gorfodol yn diogelu'r cyhoedd yn well drwy sicrhau dull cyson gyda'r gweithgareddau hynny sy'n tueddu i fod o fewn rheolaeth busnesau, yn hytrach na chofrestreion unigol.

Pan fyddwn yn dweud 'chi' yn y ddogfen hon, rydym yn golygu:

- Chi, y corff corfforedig.
- Chi, y cyfarwyddwr neu swyddog cyfrifol busnes optegol (p'un ai ydych chi'n optometrydd cofrestredig neu'n optegydd cyflenwi cofrestredig ai peidio).

Er eglurder, nid yw 'chi' yn cyfeirio at rywun sydd ond yn weithiwr i'r busnes ac sydd heb unrhyw rym i wneud penderfyniadau a/neu reolaeth ariannol dros y busnes.

Rydych chi'n atebol yn broffesiynol am yr hyn rydych chi'n ei wneud, neu ddim yn ei wneud. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi bob amser allu cyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.

Pan fyddwn yn dweud 'staff' yn y ddogfen hon, rydym yn golygu unrhyw un sy'n gweithio yng nghyd-destun y busnes yn unrhyw un o'r swyddogaethau canlynol:

- Optometryddion ac optegwyr cyflenwi, gan gynnwys rhagnodwyr annibynnol (IP), optegwyr lensys cyffwrdd (CLO) a meddygon locwm.
- Myfyrwyr-optometryddion a myfyrwyr-optegwyr cyflenwi.
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol rheoleiddiedig eraill fel ymarferwyr meddygol offthalmig (OMP).
- Cynorthwyywyr optegol neu deitlau tebyg sy'n cyflawni dyletsyddau cynorthwyydd optegol.
- Unrhyw staff arall y gallai eu rolau effeithio ar ofal cleifion, er enghraifft, staff y dderbynfia.

Safonau ar gyfer Busnesau Optegol

Mae defnyddio'r term 'staff cofrestredig' yn cyfeirio at yr unigolion hynny sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol fel naill ai optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr-optometryddion neu fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi, neu unrhyw aelod arall o staff sydd wedi cofrestru â rheoleiddiwr gofal iechyd statudol.

Mae'n anghyfreithlon i optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr-optometryddion a myfyrwyr-optegwyr cyflenwi ymarfer yn y DU, heb gofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

Rôl y busnes optegol

Fel darparwr gofal iechyd, mae gan eich busnes gyfrifoldeb i sicrhau gofal a diogelwch cleifion a'r cyhoedd, ac i gynnal safonau proffesiynol.

Rhaid i ofal, lles a diogelwch cleifion fod yn brif ystyriaeth i chi bob amser. Mae'r egwyddor hon wrth galon y proffesiynau gofal iechyd.

Mae gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, optometryddion, optegwyr cyflenwi a myfyrwyr optegol sy'n gweithio yng nghyd-destun eich busnes hefyd gyfrifoldeb i sicrhau gofal a diogelwch eu cleifion a'r cyhoedd, ac i gynnal eu safonau proffesiynol eu hunain. Ar gyfer optometryddion, optegwyr cyflenwi a myfyrwyr optegol, nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi, a'r Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol, sy'n ategu'r ddogfen hon a dylid eu darllen ochr yn ochr. Mae gan y busnes ran i'w chwarae o ran hwyluso gallu gweithwyr proffesiynol i fodloni eu safonau proffesiynol eu hunain pan fyddant yn gweithio yng nghyd-destun y busnes hwnnw. Mae angen i unigolion a busnesau gydweithio i fodloni eu safonau priodol er mwyn sicrhau gofal a diogelwch cleifion a'r cyhoedd.

Hyd yn oed os nad oes gan rai aelodau o staff gysylltiad uniongyrchol â chleifion, gall eu penderfyniadau, eu hymddygiad a/neu eu hamgylchedd gwaith effeithio ar ofal a diogelwch cleifion o hyd. Efallai y bydd gan eich busnes a'ch staff ofynion eraill i gadw atynt hefyd os ydych chi neu nhw yn darparu gwasanaethau'r GIG ac, os mai dyma'r achos, dylech sicrhau eu bod yn cael eu bodloni.

Os yw eich busnes yn ymwneud â darparu'r llwybr addysg, fel darparu lleoliadau clinigol dan oruchwyliaeth i fyfyrwyr optegol, mae hyn yn gyfrifoldeb pwysig a dylech weithio'n agos gyda darparwyr addysg i sicrhau bod rhwymedigaethau'n cael eu cyflawni.

Safonau ar gyfer Busnesau Optegol

Pan fydd pryderon

Os bydd rhywun yn mynegi pryderon am eich addasrwydd i barhau â busnes, byddwn yn cyfeirio at y safonau hyn wrth benderfynu a oes angen i ni gymryd unrhyw gamau. Efallai y bydd angen i chi ddangos bod eich penderfyniadau wedi'u llywio gan y safonau hyn a'ch bod wedi gweithredu er budd pennaf eich cleifion a'r cyhoedd.

Y safonau

Mae'r safonau wedi'u rhannu'n dri maes allweddol: eich cleifion, eich diwylliant a'ch trefn lywodraethu, a'ch staff.

Fel busnes optegol cofrestredig, rhaid i chi sicrhau, mewn perthynas â'r canlynol:

1. Eich cleifion:

- 1.1. Gall cleifion ddisgwyl bod yn ddiogel yn eich gofal.
- 1.2. Mae gofal cleifion yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd addas.
- 1.3. Mae'r cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol; a
- 1.4. Gall cleifion roi caniatâd dilys i gael triniaeth.

2. Eich diwylliant a'ch trefn lywodraethu:

- 2.1. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gennych yn agored ac yn dryloyw.
- 2.2. Rydych yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol.
- 2.3. Mae gennych system llywodraethu clinigol ar waith; ac
- 2.4. Mae cyfrinachedd yn cael ei barchu.

3. Eich staff:

- 3.1. Mae staff yn gallu arfer eu barn broffesiynol.
- 3.2. Mae staff wedi'u hyfforddi, eu cymhwyso a'u cofrestru'n briodol.
- 3.3. Mae staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n ddigonol; ac
- 3.4. Mae staff yn cydweithio ag eraill, lle bo hynny'n briodol.

1. Eich cleifion

1.1 Gall cleifion ddisgwyl bod yn ddiogel yn eich gofal

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae hyrwyddo diogelwch cleifion wrth galon pob gofal iechyd. Dylai claf allu ymddiried yn ei ddarparwr gofal iechyd i flaenoriaethu ei ddiogelwch er mwyn iddo allu cael y gofal gorau posibl. Un agwedd bwysig ar hyn yw na ddylai busnesau optegol rwystro'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y maent yn eu cyflogi, neu'n eu rhoi ar gontract, rhag bodloni eu safonau proffesiynol eu hunain. I gyflawni hyn, rhaid i'ch busnes wneud y canlynol:

- 1.1.1 Deall ei gyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol i ddiogelu cleifion rhag cael eu cam-drin a sicrhau ei fod ef a'i staff yn cael eu paratoi a'u cefnogi i wneud hynny.
- 1.1.2 Meddu ar broses i staff roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu a'u hannog i wneud hynny.
- 1.1.3 Mynd i'r afael yn brydlon â phryderon am gydweithwyr, busnesau neu sefydliadau eraill os gallai diogelwch cleifion neu'r cyhoedd fod mewn perygl. Efallai y bydd y pryderon hyn yn cael eu nodi gennych chi neu eich staff.
- 1.1.4 Lle na all eich busnes fynd i'r afael â nhw, uwchgyfeirio neu roi gwybod am bryderon sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd i awdurdod priodol, ac annog erailli wneud yr un peth.
- 1.1.5 Gwneud staff yn ymwybodol, pan fyddant wedi mynegi pryderon nad ydynt wedi cael eu datrys yn y busnes, y gallant uwchgyfeirio neu roi gwybod am y rhain i awdurdod uwch fel rheoleiddiwr proffesiynol (chwythu'r chwiban) a bod rhai agweddau ar hyn yn cael eu diogelu gan y gyfraith.
- 1.1.6 Sicrhau, wrth gyflwyno ymyriadau technolegol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial (AI) a dysgu peirianyddol, nad ydynt yn peryglu gofal cleifion, a bod safonau proffesiynol yn parhau i gael eu bodloni.
- 1.1.7 Ystyried a oes angen gwiriadau cofnodion troseddol ar gyfer ei aelodau staff yn dibynnu ar eu rolau penodol a/neu eu cysylltiad â chleifion, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed. Mae'r broses ar gyfer cynnal gwiriadau o'r fath yn amrywio ar draws pedair gwlad y DU.
- 1.1.8 Yn barod i gyfyngu ar fasnachu mewn meysydd sy'n peri pryder, pe byddai parhau i wneud hynny yn cael effaith andwyol ar ofal cleifion.
- 1.1.9 Cymryd camau priodol i ddiogelu cleifion, y cyhoedd a'ch gweithwyr, os oes tystiolaeth i ddangos efallai na fydd aelod o staff neu fyfyrwr yn addas i ymarfer, hyfforddi neu weithio.
- 1.1.10 Sicrhau nad yw unrhyw dargedau gweithredol neu fasnachol yn cael effaith andwyol ar ofal cleifion.

Eich cleifion

1.2 Mae gofal cleifion yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd addas

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae'n hanfodol bod yr amgylchedd lle mae cleifion yn cael triniaeth a gofal yn addas i'r diben, fel bod cleifion yn cael eu diogelu a bod modd cael gwybodaeth gywir am iechyd llygaid claf. Mae hyn yn berthnasol ni waeth ble mae'r gofal yn cael ei ddarparu, gan gynnwys ar-lein. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 1.2.1 Sicrhau bod gan yr holl staff priodol yswiriant indemniad proffesiynol ar waith ar gyfer eu gweithgareddau, ac ystyried a oes angen unrhyw yswiriant ychwanegol ar gyfer y busnes.
- 1.2.2 Darparu amgylchedd gofal cleifion hygyrch yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb gyfredol.
- 1.2.3 Cynnal safon briodol o hylendid ac atgyweirio'r eiddo y darperir gofal ohono.
- 1.2.4 Dim ond yn darparu, yn hyrwyddo ac yn defnyddio offer, meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd a thechnolegau eraill) sy'n addas i'w defnydd arfaethedig, yn hylan ac mewn cyflwr da.
- 1.2.5 Sicrhau bod staff sy'n defnyddio offer, meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd a thechnolegau eraill) wedi cael hyfforddiant priodol o ran sut i'w defnyddio.

- 1.2.6 Cynghori staff bod ganddynt hawl i wrthod darparu gofal os oes risg ddifrifol i'w diogelwch eu hunain neu ddiogelwch pobl eraill wrth wneud hynny. Mae hyn yn berthnasol lle bynnag y mae gofal yn cael ei ddarparu, gan gynnwys mewn lleoliadau cartref.
- 1.2.7 Yn gallu darparu ar gyfer angen neu ddymuniad claf i gael gofalwr, hebryngydd neu ddehonglydd yn bresennol, boed hynny wedi'i ddarparu ganddyn nhw neu gan y practis.
- 1.2.8 Darparu cyfleusterau gwaredu priodol ar gyfer yr holl wastraff, gan gynnwys unrhyw wastraff a reolir, gwastraff clinigol a gwastraff annymunol lle bo hynny'n berthnasol.
- 1.2.9 Yn mynnu ac yn gorfodi protocolau rheoli heintiau sy'n briodol i'ch practis, ac yn sicrhau bod yr holl staff mewn sefyllfa i'w dilyn.
- 1.2.10 Sicrhau bod eich busnes yn barod i ddelio â sefyllfa frys sy'n codi yn y practis, boed hynny'n optegol neu fel arall.
- 1.2.11 Sicrhau bod mynediad heb awdurdod at offer, meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd a thechnolegau eraill) ac ardaloedd cyfyngedig yn yr adeilad, yn cael ei atal.

Eich cleifion

1.3 Mae'r cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae cyfathrebu'n glir â chleifion yn hanfodol er mwyn gallu darparu gofal addas iddynt a sicrhau eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd eu hunain. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn gwybod beth y gallant ei ddisgwyl o'u gofal optegol a bod ganddynt ddealltwriaeth realistig o'r hyn y gellir ei ddarparu fel y gellir rheoli eu disgwyliadau. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 1.3.1 Darparu gwybodaeth sy'n hygyrch i gleifion mewn ffordd maen nhw'n ei deall, gan ystyried anghenion a gofynion unigol. Gallai hyn gynnwys yr hyn a allai fod yn angenrheidiol mewn cyd-destunau penodol, fel gofynion wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG; anghenion ychwanegol y claf fel anabledd dysgu; ac unrhyw anawsterau lleferydd neu gyfathrebu.
- 1.3.2 Sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw pwysau gweithredol neu fasnachol yn atal staff rhag rhoi'r amser sydd ei angen ar gleifion i brosesu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddyn nhw, a'r cyfle i newid eu meddwl.

- 1.3.3 Yn darparu, neu'n sicrhau bod gwybodaeth ar gael i staff i'w rhoi i gleifion am unrhyw newid i'w cynhyrchion neu gyfarpar ar bresgripsiwn, er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch eu gofal eu hunain.
- 1.3.4 Cyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o bobl, gan gynnwys cleifion, gofawyr, cydweithwyr proffesiynol ac eraill.
- 1.3.5 Rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gleifion neu ofalwyr i allu defnyddio, gweinyddu neu ofalu'n ddiogel am feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd a thechnolegau eraill) y maent wedi eu cael ar bresgripsiwn neu eu cyfarwyddo i'w defnyddio, er mwyn rheoli eu cyflyrau llygaid.
- 1.3.6 Darparu gwybodaeth sensitif gyda gofal a thosturi.

Eich cleifion

1.4 Gall cleifion roi caniatâd dilys i gael triniaeth

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae'n egwyddor gyfreithiol a moesegol sylfaenol bod yn rhaid cael caniatâd dilys ar y man lle rhoddir gofal a thrwy gydol y driniaeth. Mae caniatâd yn adlewyrchu hawl cleifion i benderfynu beth sy'n digwydd i'w cyrff eu hunain a gwneud dewisiadau mewn perthynas â chyfarpar optegol neu driniaeth. Gall cleifion roi caniatâd penodol, neu mewn rhai achosion gallant roi caniatâd dealliedig ac mae'r ddau beth hyn yr un mor ddilys. Mae gan y Cyngor Optegol Cyffredinol ragor o ganllawiau ar ganiatâd, gan gynnwys y gwahaniaethau rhwng mathau o ganiatâd, ar ein gwefan.

I fod yn 'ddilys', rhaid rhoi caniatâd: a) yn wirfoddol; b) gan glaf neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y claf; ac c) gan unigolyn sydd wedi cael gwybodaeth briodol. Yn y cyd-destun hwn, mae 'gwybodaeth briodol' yn golygu bod y claf wedi cael esboniad o'r hyn y mae'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn mynd i'w wneud a bod y claf yn ymwybodol o unrhyw risgiau ac opsiynau sy'n berthnasol iddo. Mae cefnogaeth y busnes yn hanfodol i helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol unigol i geisio a chael caniatâd dilys gan gleifion. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 1.4.1 Hyrwyddo'r angen am ganiatâd dilys gan gleifion.
- 1.4.2 Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i staff ynghylch y gwahaniaethau o ran cael caniatâd dilys plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, ac unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar ddarparu caniatâd yng ngwledydd y DU maent yn gweithio ynddynt.
- 1.4.3 Cefnogi staff i asesu capasiti cleifion pan fyddant yn ansicr, ac yn annog staff i gofnodi unrhyw gyngor a gânt wrth wneud asesiad o'r fath.
- 1.4.4 Yn cydnabod y gellir rhoi caniatâd dealliedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal claf, ac yn cyfeirio staff at ganllawiau caniatâd y Cyngor Optegol Cyffredinol i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

2. Eich diwylliant a'ch trefn lywodraethu

2.1 Mae'r gwasanaethau a ddarperir gennych yn agored ac yn dryloyw

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol

Nododd Ymchwiliad Cyhoeddus Ysbyty Canol Swydd Stafford fod angen bod yn agored ac yn dryloyw o fewn gofal iechyd. Er mwyn gallu hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd ynoch chi fel busnes ac yn y proffesiynau optegol, mae angen i chi sicrhau bod y gwasanaethau rydych chi'n eu darparu i gleifion a'r cyhoedd yn dryloyw; bod cwynion yn cael eu trin yn deg; a bod staff yn gallu bod yn onest. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 2.1.1 Meithrin diwylliant o onestrwydd yn y busnes drwy annog gonestrwydd a meddu ar wybodaeth dda am unrhyw ddyletswyddau gonestrwydd cytundebol neu statudol sy'n berthnasol i'ch busnes, yn ogystal â'r ddyletswydd ar eich staff cofrestredig o dan y Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi a Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol.
- 2.1.2 Cyflawni ei ddyletswyddau gonestrwydd proffesiynol, cytundebol a statudol pan nodir bod pethau wedi mynd o chwith o ran triniaeth neu ofal claf sydd wedi achosi iddynt ddioddef niwed neu ofid, neu lle gallai fod goblygiadau o ran gofal cleifion yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys, fel sail, yr angen i:

- 2.1.2.1 Ddweud wrth y claf neu, lle bo'n briodol, eiriolwr, gofalwr neu deulu'r claf, bod rhywbeth wedi mynd o'i le.
- 2.1.2.2 Cynnig ymddiheuriad.
- 2.1.2.3 Cynnig camau neu gymorth priodol i unioni pethau (os yw'n bosibl).
- 2.1.2.4 Esbonio'n llawn ac yn brydlon beth sydd wedi digwydd a'r effeithiau tymor byr a thymor hir tebygol.
- 2.1.2.5 Amlinellu yr hyn y byddwch yn ei wneud, lle bo'n bosibl, i atal hyn rhag digwydd eto a gwella gofal i gleifion yn y dyfodol.

- 2.1.3 Sicrhau bod gan staff rolau wedi'u neilltuo'n briodol, gyda llinellau atebolrwydd clir a, lle mae staff yn rhyngweithio â chleifion a'r cyhoedd, eu bod yn dweud pwy ydyn nhw a'u rôl/rolau yn glir.
- 2.1.4 Sefydlu protocol cwynion clir a gwneud cleifion yn ymwybodol o'u sianelau cwyno. Mae'r rhain yn cynnwys y busnes, y Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS), y Cyngor Optegol Cyffredinol, y GIG neu wasanaethau ombwdsmon lle bo hynny'n berthnasol.
- 2.1.5 Gadael i staff (gan gynnwys meddygon locwm) gyrchu polisïau a phrotocolau cwyno, ac unrhyw brotocolau mewnol eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gleifion, neu fynediad at aelod arall o staff sy'n gallu rhoi cyngor ar y rhain.

Eich diwylliant a'ch trefn lywodraethu

- 2.1.6 Sicrhau, pan fydd claf yn gwneud cwyn, nad yw hyn yn effeithio ar ei ofal, a allai ei gwneud yn ofynnol i glaf gael ei gyfeirio at ymarferydd neu bractis arall.
- 2.1.7 Cydweithredu ag ymchwiliadau ac ymholiadau ffurfiol mewn perthynas â'ch busnes neu'ch staff, yn darparu gwybodaeth berthnasol i awdurdodau priodol pan ofynnir amdanynt ac nid yn atal staff rhag cydweithredu pan fo angen.
- 2.1.8 Rhoi gwybodaeth glir i gleifion am gostau cynhyrchion a gwasanaethau proffesiynol.
- 2.1.9 Annog staff i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau, lle maent yn codi, a thynnu eu hunain yn ôl o wrthdaro o'r fath. Mae'r datganiad ar y cyd ar wrthdaro buddiannau rheoleiddiol yn nodi'r hyn a ddisgwylir.

2.2 Rydych yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Fel rhan o'i gyfrifoldebau i'r Cyngor Optegol Cyffredinol, mae gan eich busnes ddyletswydd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau sy'n effeithio ar redeg y busnes. Mae methu â chydymffurfio yn rhoi enw da'r busnes a'i allu i barhau i weithredu yn y fantol. Mae gan ymddygiad personol a phroffesiynol cyfarwyddwyr y potensial hefyd i effeithio ar allu'r busnes i barhau i weithredu (er enghraifft, os cyflawnir trosedd). Nid yw'r wybodaeth a restrir isod yn gynhwysfawr a gall dyletswyddau statudol neu reoleiddiol eraill fod yn berthnasol yn dibynnu ar strwythur eich busnes neu'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 2.2.1 Hysbysebu dim ond mewn ffyrdd nad ydynt yn gamarweiniol, yn ddryslyd nac yn anghyfreithlon.
- 2.2.2 Gweithredu ar unrhyw gyfarwyddyd gan awdurdod statudol sy'n mynnu bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu lles cleifion a staff.

Eich diwylliant a'ch trefn lywodraethu

- 2.2.3 Sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei gasglu, ei brosesu, ei storio a'i ddinistrio mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gyfraith.
- 2.2.4 Cymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr unigolion neu'r sefydliadau hynny yr ydych yn cyfeirio cleifion atynt yn gallu darparu gofal priodol.
- 2.2.5 Hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol wrth ymdrin â staff, cleifion ac eraill ac nid yn gwahaniaethu ar sail nodweddion a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol.
- 2.2.6 Rhoi gwybodaeth glir i staff mewn perthynas â'r holl deddfwriaeth sy'n berthnasol i'w rolau.

2.3 Mae gennych chi system lywodraethu ar waith

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae llywodraethu clinigol yn ddull systematig o gynnal a gwella ansawdd gofal cleifion o fewn darparwyr gofal iechyd. Rydych chi'n darparu gwasanaeth gofal iechyd ac felly mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod y gofal rydych chi'n ei ddarparu i gleifion o ansawdd da ac yn gwella'n barhaus. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 2.3.1 Meddu ar system sy'n briodol i'ch practis, sy'n caniatáu i staff adolygu a myfyrio ar eu gwaith a nodi a rhannu arferion da neu lle mae angen gwelliannau.
- 2.3.2 Dysgu o gamgymeriadau eich sefydliad a'ch staff a, lle bo modd gwneud hynny, rhoi mecanweithiau ar waith i atal hyn rhag digwydd eto.
- 2.3.3 Archwilio cofnodion cleifion i nodi themâu a materion a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n codi er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd gofal cleifion. Dylai'r dull gweithredu fod yn briodol ac yn gymesur â'ch busnes.

2.4 Mae cyfrinachedd yn cael ei barchu

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae parchu cyfrinachedd yn un o egwyddorion sylfaenol gofal iechyd: mae claf yn ymddiried yn ei weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac yn disgwyl yn rhesymol i wybodaeth gael ei chadw'n breifat, ac nid yn cael ei datgelu i eraill yn ddiangen neu'n anghyfreithlon. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol i wybodaeth sydd gennych am eich staff. Eich rôl chi fel busnes optegol yw darparu amgylchedd sy'n helpu i barchu cyfrinachedd, gan sicrhau bod modd gwneud datgeliadau priodol pan fydd budd i'r cyhoedd wrth wneud hynny. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 2.4.1 Darparu system ar gyfer cadw cofnodion cleifion sy'n ddiogel ac yn hygyrch i'r rheini sydd angen eu gweld yn unig. Mae hyn yn berthnasol i gofnodion papur ac electronig.
- 2.4.2 Gallu darparu preifatrwydd ar gyfer gofal cleifion pan fo angen.
- 2.4.3 Storio gwybodaeth am staff a recriwtio yn ddiogel ac yn gyfrinachol.
- 2.4.4 Diweddarau systemau storio'n briodol (gan gynnwys storio cofnodion papur ac electronig) er mwyn cynnal diogelwch.
- 2.4.5 Cefnogi staff i sicrhau cyfrinachedd cleifion lle bo hynny er budd y cyhoedd. Dylai hyn gynnwys canllawiau i staff ar sut i ddatgelu gwybodaeth i awdurdod priodol a dogfennu datgeliadau o'r fath.

3. Eich staff

3.1 Mae staff yn gallu arfer eu barn broffesiynol

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae'n bwysig bod staff yn gallu arfer eu barn broffesiynol wrth gyflawni eu dyletswyddau i gleifion, a bodloni disgwyliadau eu rheoleiddiwr proffesiynol. Mae hyn yn dibynnu ar rymuso staff i ystyried yr hyn sydd orau i gleifion a gwneud hynny gan ystyried eu lles a'u hamgylchiadau. Dylent fod mewn sefyllfa i wneud hynny heb fod dan ddylanwad neu bwysau allanol afresymol. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 3.1.1 Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi, Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol a Safonau ar gyfer Busnesau Optegol i staff.
- 3.1.2 Cefnogi ei staff i fod â'r hyder i wneud penderfyniadau sy'n briodol i'w rôl.
- 3.1.3 Gwneud yn siŵr nad yw pwysau gweithredol a masnachol yn rhwystro barn broffesiynol yn afresymol.

Eich staff

- 3.1.4 Mae'n rhoi digon o amser i staff, cyn belled ag y bo modd, ddarparu ar gyfer anghenion unigol cleifion o fewn y gofal a ddarperir.
- 3.1.5 Annog staff i geisio cyngor ar wneud penderfyniadau anodd os oes angen, a rhoi gwybod iddynt gyda phwy y gallant wneud hyn.
- 3.1.6 Sicrhau bod cyfiawnhad clinigol dros unrhyw newidiadau i gynhyrchion ar bresgripsiwn, a bod staff yn gallu defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu a yw newid i'r cynnyrch ar bresgripsiwn yn briodol i gleifion unigol.

3.2 Mae staff wedi'u hyfforddi, eu cymhwyso a'u cofrestru'n briodol

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod y rhai sy'n ymgymryd â swyddogaethau cyfyngedig wedi'u cofrestru'n briodol gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC). Yn ogystal, mae angen i staff sy'n ymgymryd â rolau eraill yn y busnes optegol gael lefelau addas o hyfforddiant er mwyn peidio â chael effaith andwyol ar ddiogelwch neu ymddiriedaeth cleifion. Felly, o safbwynt gofal iechyd a masnachol, mae'n hanfodol bod y busnes yn rhagweithiol o ran sicrhau bod ei staff wedi'u hyfforddi, eu cymhwyso a'u cofrestru'n briodol (lle bo angen). Mae angen i ddysgu unigolyn fod yn gydol oes er mwyn iddo allu cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau yn agwedd, technoleg a chwmpas ei broffesiwn, a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i ymarfer. Mae'n bwysig felly bod yr amgylchedd busnes yn un lle mae staff yn teimlo eu bod yn gallu dysgu a thyfu. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

Eich staff

- 3.2.1 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gweithio fel optometryddion ac optegwyr cyflenwi (a myfyrwyr-optometreg a myfyrwyr-optegwyr cyflenwi) gael cofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol a chymryd camau rhesymol i sicrhau bod hyn yn digwydd.
- 3.2.2 Cefnogi ei staff i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a thrin cleifion â gofal a thosturi.
- 3.2.3 Annog staff i ddysgu a datblygu wrth wneud penderfyniadau proffesiynol, fel sy'n briodol i'w rôl.
- 3.2.4 Paratoi staff newydd i ddeall sut mae gofal cleifion yn cael ei ddarparu yn eich lleoliad busnes penodol.
- 3.2.5 Gwneud staff yn ymwybodol mai dim ond o fewn terfynau eu cymhwysedd y dylent weithio, a chymryd camau priodol pan nad ydynt yn gwneud hynny.
- 3.2.6 Darparu system ar gyfer monitro amcanion staff ac anghenion hyfforddi, fel y bo'n briodol.
- 3.2.7 Cefnogi'r sawl sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol i fodloni eu gofynion proffesiynol, gan gynnwys Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi a Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol a gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

3.3 Mae staff yn cael eu goruchwyllo a'u cefnogi'n ddigonol

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Mae gan fusnesau optegol gyfrifoldeb i sicrhau bod staff yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol, lle bo hynny'n briodol, a bod gan staff rôl allweddol i'w chwarae wrth oruchwyllo myfyrwyr yn ffurfiol cyn cofrestru, fel rhan o'r llwybr addysg. Mae'n bwysig sicrhau bod yr holl staff – sy'n cael eu rheoleiddio ai peidio – yn cael mynediad at yr oruchwyliaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal da i gleifion. Nodir y safonau ar gyfer trefniadau goruchwyllo a dirprwyo yn Safon 9 y Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi. Mae polisi goruchwyllo'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer myfyrwyr cyn cofrestru wedi'i nodi yn llawlyfrau sicrhau ansawdd y Cyngor. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 3.3.1 Sicrhau mai dim ond staff sydd â chymwysterau a phrofiad digonol sy'n gweithredu fel goruchwylwyr, a'i bod yn ofynnol iddynt fod mewn sefyllfa i oruchwyllo'r gwaith a wneir ac yn barod i ymyrryd os oes angen i ddiogelu cleifion.

Eich staff

- 3.3.2 Sicrhau bod yr holl aelodau staff sy'n ymwneud â dirprwyo a goruchwyllo tasgau clinigol yn ymwybodol pwy sydd â'r cyfrifoldeb clinigol cyffredinol dros y claf.
- 3.3.3 Monitro cynnydd staff newydd o ran bodloni gofynion eu rôl.
- 3.3.4 Gyda systemau priodol ar waith i fynd i'r afael â pherfformiad clinigol a phroffesiynol gwael a'i reoli.
- 3.3.5 Sicrhau bod gan fyfyrwyr amser wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu dan oruchwyliaeth, lle mae'r busnes wedi ymrwymo i gytundeb i ddarparu hyfforddiant clinigol yn ymarferol fel rhan o'r llwybr addysg.
- 3.3.6 Rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr am bwy i siarad â nhw yn y practis os oes ganddynt broblem neu ymholiad.
- 3.3.7 Rhoi cymorth i staff sydd wedi profi gwahaniaethu, bwlio neu aflonyddwch yn y gweithle.

3.4 Mae staff yn cydweithio ag eraill, lle bo hynny'n briodol

Pam mae'r safon hon yn angenrheidiol?

Efallai y bydd angen atgyfeirio rhai cleifion yn allanol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fel offthalmolegwyr i reoli eu hiechyd. Dylai staff sy'n gweithio mewn busnes optegol ddeall y system atgyfeirio sydd ar gael a bod mewn sefyllfa i gydweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i sicrhau diogelwch cleifion. Dylai meddygon locwm yn benodol gael mynediad at wybodaeth am brotocolau atgyfeirio lleol. Ni ellir gwneud hyn heb gefnogaeth lawn y busnes. I gyflawni hyn, mae eich busnes yn gwneud y canlynol:

- 3.4.1 Cefnogi ei staff i wneud atgyfeiriadau a sicrhau eu bod yn gwneud atgyfeiriadau dim ond pan fo'n briodol ac y gellir cyfiawnhau hynny'n glinigol.
- 3.4.2 Helpu i rannu gwybodaeth briodol a pherthnasol yn brydlon.
- 3.4.3 Cefnogi ei staff i ofyn am ragor o wybodaeth gan y claf, ei ofalwr/ofalwyr neu unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall pan fo angen.
- 3.4.4 Annog cyfathrebu parchus â chydweithwyr proffesiynol a pheidio â gwneud sylwadau dilornus am weithwyr proffesiynol neu fusnesau eraill yn gyhoeddus neu'n breifat.
- 3.4.5 Cefnogi ei staff i gadw cofnodion cleifion sy'n glir, yn ddarllenadwy, yn gyfoes ac yn ddigon manwl i fod yn hygyrch i weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

General Optical Council
10 Old Bailey
London, EC4M 7NG

Telephone +44 (0)20 7580 3898
Email standards@optical.org

X @GOC_UK
www.optical.org
